Cofnodion Cyfarfod 13 Tachwedd 2012 a gynhaliwyd yn Plas Menai, Y Felinheli am 8:00 yh.

**YN BRESENNOL**

Ken Brown
Lena Ashley
Bethan Jones
Pat Jones
Daniel Williams
Louise Hughes
Sarah Riley
Siân Gwenllïan
Nerys John

Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

## 1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Tachwedd y Cyngor gan y Cadeirydd, diolchodd iddynt am eu parodrwydd i newid amser a lleoliad y cyfarfod.

**Ymddiheuriadau** Eluned Owen, George Smith, Hywel V Jones

## 2.0 DATGAN DIDDORDEB

Dim.

## 3.0 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 9fed o Hydref 2012.

3.2 Gofynnwyd i newid cofnod 15.10 i adrodd fel a ganlyn: Mae plant a phobl ifanc yn cwyno bod dim digon o rwystr yn bodoli yn y cae chwarae i nadu eu pêl-droed fynd i'r ffordd.

**Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.**

## 4.0 MATERION YN CODI

4.1 **Gwefan y Felinheli** - Dywedodd y Cadeirydd ei fod mewn cysylltiad â Delwedd ynglŷn â datblygu'r wefan; hefyd roedd angen cyfarfod yn y dyfodol gyda rhai o'r cynghorwyr i fynd ati i newid rhai o'r lluniau gan fod y rhai sydd ar y wefan ar hyn o bryd yno ers peth amser.

4.2 Dywedodd y Cadeirydd bod Cyngor Tref Conwy ac Abergele yn awyddus i ddatblygu gwefan fel yr hyn oedd gan y Felinheli.

4.3 **Cytundeb Y Neuadd** -Nid yw cytundeb rhwng y Cyngor a'r Pwyllgor Rheoli'r Neuadd heb eu drafftio, roedd y Cadeirydd yn awyddus i'r mater gael ei setlo gan fod cytundeb y contract wedi ei benderfynu ers rhai misoedd bellach.

## 5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

5.1 Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod Snowdonia Fire protection Ltd wedi asesu risg tan yn y neuadd a bod rhai materion angen eu codi a bod angen sicrhau gweithred arnynt yn fuan.

5.2 Mae prawf wythnosol ar y larwm tan wedi ei wneud.

5.3 Mae problem gyda rhiniog un drws tan.

5.4 Roedd hefyd angen paentio'r toiledau yn y neuadd; dywedodd y Cadeirydd y byddai yn cyfarfod a gweithiwr o'r pentref i gael pris am y gwaith.

5.5 Bydd Bara Caws yn defnyddio'r neuadd ar y 25ain o Fawrth 2013.

## 6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

**6.1** Cadarnhawyd gwariant Mis Hydref a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.

## 7.0 GOHEBIAETH

7.1 Dim.

## 8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

8.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Daniel Williams a Mrs Williams am eu gwaith o lanhau a thacluso'r Gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio.

8.2 Cynghorydd Daniel Williams am sicrhau bod y gofeb yn cael ei golchi a "jet wash".

8.3 Roedd dwr yn casglu ar y stepiau ond nid oedd yn achosi problem.

8.4 Roedd gwlybaniaeth yn parhau a gobeithir cael trafodaethau a saer maen yn y dyfodol agos.

8.5 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chynnal Gwasanaeth Sul y Cofio yn Neuadd yr Eglwys a hefyd a oedd modd cau'r ffordd am gyfnod byr iawn ar gyfer Sul y Cofio'r flwyddyn nesaf.

**Y Clerc i ysgrifennu i ofyn a byddai modd i wahardd trafnidiaeth trwodd ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio'r flwyddyn nesaf.**

## 9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim

## 10.0 NEUADD YR EGLWYS

10.1 Dim gwybodaeth i'w adrodd.

## 11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

11.1 Bydd contract newydd am dorri gwair y fynwent flwyddyn nesaf yn cael eu hysbysebu ym mis Ionawr, ceisiadau i mewn erbyn mis Chwefror ac yna dewis contractwr ym mis Mawrth ar gyfer dechrau torri ym mis Ebrill.

## 12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

12.1 Cyfarfod ac aelodau a Mr Horrocks byth wedi ei gyflawni.

12.2 Mae problem y car heb dreth wedi ei ddatrys.

12.3 Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams ynglŷn â materion Partneriaeth Y Felinheli. Dywedodd bod y bartneriaeth wedi derbyn £3.5 mil er mwyn cael astudiaeth dichonoldeb. Gobeithir cael ardal lle gall blant ddysgu ac ymarfer beicio, ardal i gadw yn heini, ardal i dyfu llysiau a defnyddio dŵr sydd yn cronni yno i ddyfrio a chreu trydan drwy godi "micro Hydro".

12.4 Dywedodd bod peth ddryswch ynglŷn â sut mae sicrhau arian ar gyfer y prosiect. Byddai yn adrodd yn ôl i'r cyngor cyn gynted a'i fod wedi derbyn fwy o wybodaeth gadarnhaol.

## 13.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

13.1 Y Cadeirydd wedi cynnal sgwrs a chontractwr er mwyn rhoddi mainc yn y gysgodfan bws, nid yw'r Feddygfa yn weithredol hyd yma felly nid oes brys mawr i gyflwyno'r fainc ar hyn o bryd.

13.2 Dywedodd y Cadeirydd Sir eu bod wedi cael cyfarfod ynglŷn â Cae Rowen ynglŷn â'r llwybr answyddogol sydd yn rhedeg drwyddo i'r Traeth. Mae trafodaethau yn parhau i ail-leoli'r llwybr i'r ochr; Gobeithir bydd trafodaethau yn cael ei gynnal a Amcen ynglŷn â chofrestru'r llwybr. Mae cais hefyd wedi ei wneud gogyfer cael stepiau newydd.

## 14.0 CYNGHORYDD SIR

14.1 Safle Bws Cerrig yr Afon- dywedodd y Cynghorydd Sir ei bod wedi derbyn cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd bod y safle bws yn eithriadol o dywyll yn y nos a bod gweithwyr neu ymwelwyr Cerrig yr Afon yn defnyddio'r safle ond eu bod yn teimlo yn anniogel i wneud hynny heb fod golau stryd ar y safle.

**Y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â goleuadau solar.**

14.2 Ffordd Osgoi Bontnewydd a Chaernarfon - gan fod y Cynghorydd Sir ddim yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod Craffu Cyngor Gwynedd pam fydd trafodaeth am y ffordd osgoi; bydd y Cadeirydd Ken Brown a'r Cynghorydd Nerys John yn ei chynrychioli ac yn barod iawn i roi'r ddadl gerbron y pwyllgor.

14.3 Roedd cais wedi ei dderbyn gan ddatblygwr Ger y Nant gogyfer codi safle bws ger cyffordd Y Wern ond oherwydd nad oedd cynllun perthnasol ar gael nid oedd y Cyngor yn gallu symud ymlaen a phenderfyniad.

## 15.0 UNRHYW FATER ARALL

15.1 Rhoddwyd sylw i fater o ymddygiad wrth gymdeithasol yn bodoli du gefn i'r ysgol ar hyd llwybr answyddogol.

15.2 Cafwyd hefyd sylw bod wal gynnal ochr Bangor i'r pentref angen sylw mewn dau le.

**Gofynnwyd i'r Clerc ddod a'r mater cyntaf i sylw'r heddlu a'r ail fater i sylw Priffyrdd Gwynedd gyda chais am ymweliad safle.**

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:45 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....